# Hyfforddwr Gwaith (8 swydd 0.6FTE)

## Swydd-Ddisgrifiad:

| | |
|---|---|
| Lleoliad | Lleoliadau amrywiol ledled Ceredigion, Powys, Sir Gâr a Sir Benfro. Mae trefniadau gweithio Hybrid ac o Adref ar gael. |
| Hyd y Cytundeb | 0.6FTE (21 awr yr wythnos) hyd y 31 Hydref 2029 |
| Cyflog | £27,000 y flwyddyn, yn ôl cyfran. |
| Cyflogwr | Antur Cymru – 3 swydd<br>Planed – 2 swydd<br>Foothold Cymru – 3 swydd |

### Trosolwg o'r Bartneriaeth

Menter uchelgeisiol bum mlynedd yw Porth Gwyrdd wedi'i dylunio i ysbrydoli, ymgysylltu a chefnogi pobl 16-30 oed sydd ar y cyrion yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru i mewn i yrfaoedd gwyrdd, cynaliadwy. Mae'r prosiect wedi'i gydgynhyrchu gyda ac er mwyn pobl ifanc sy'n anabl a/neu o gymunedau ethnig amrywiol, yn enwedig menywod, y rheiny sydd ar gyrion addysg a chyflogaeth, ar incwm isel, ac yn byw mewn ardaloedd gwledig. Arweinir y bartneriaeth gan Foothold Cymru, mewn partneriaeth ag Antur Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, a PLANED, gan weithio ledled Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.

### Ynglŷn â'r Gronfa a'i Uchelgais

Ariennir prosiect Porth Gwyrdd gan Raglen Gyrfaoedd Gwyrdd Cronfeydd Segur Llywodraeth Cymru a'i reoli gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Nod y gronfa yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o yrfaoedd gwyrdd ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rheiny sy'n anabl neu o gymunedau ethnig amrywiol.
- Cefnogi'r bobl ifanc hyn i fewn i yrfaoedd gwyrdd trwy ddatblygu sgiliau, profiad gwaith, a chyflogaeth hirdymor.
- Paratoi cyflogwyr i ddarparu cyfleoedd cynhwysol.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru
Dormant Assets
Sustainable Steps Wales
Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL
Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

Rhannu gwersi er mwyn dylanwadu ar bolisi ac arferion, gan yrru arloesedd a chynhwysiant yn economi werdd Cymru a thu hwnt.

## Ynglŷn â'r Rôl

Bydd wyth o Hyfforddwr Gwaith rhan-amser (0.6 FTE) yn cael eu recriwtio—dau fesul sir—i ddarparu cefnogaeth ddwys, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn lleoliadau gwaith â thâl, Interniaethau Gyrfaoedd Gwyrdd, a lleoliadau gwirfoddoli. Mae Hyfforddwyr Gwaith yn hanfodol i lwyddiant y prosiect, gan gefnogi'r cyfranogwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl eu lleoliadau, a sicrhau bod gan bob person ifanc y cyngor wedi'i deilwra y maen nhw ei angen i ffynnu yn yr economi werdd.

## Pwrpas y Rôl

Darparu cymorth o ansawdd uchel, 1:1 i bobl ifanc rhwng 16 a 30 oed—yn enwedig rheiny sy'n anabl a/neu o gymunedau ethnig amrywiol—gan eu galluogi i gael mynediad, cynnal, a symud ymlaen mewn gyrfaoedd gwyrdd trwy leoliadau gwaith â chymorth, interniaethau, gwirfoddoli, neu lwybrau amgen.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Cyflwyno hyfforddiant dwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl ifanc cyn, yn ystod, ac ar ôl eu lleoliadau â thâl, interniaethau, neu rolau gwirfoddoli, gan ganolbwyntio ar adeiladu hyder, sgiliau, a pharodrwydd ar gyfer y gweithle.
- Cynnal asesiadau cychwynnol a datblygu cynlluniau dysgu a datblygu wedi'u personoli ar gyfer pob cyfranogwr, gan adolygu cynnydd yn rheolaidd ac addasu'r cymorth fel y bo'n angenrheidiol.
- Cefnogi cyfranogwyr trwy hyfforddiant cyn cyflogaeth, gan gynnwys sgiliau meddal, sgiliau penodol i swydd, llythrennedd digidol ac ariannol, ac ymddygiad yn y gweithle.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Busness er mwyn paru pobl ifanc â chyflogwyr a lleoliadau gwyrdd priodol, gan ystyried eu diddordebau, anghenion, a lleoliad daearyddol.
- Cydweithio â chyflogwyr i sicrhau addasiadau rhesymol, hygyrchedd yn y gweithle, a phenodiad a hyfforddiant mentoriaid yn y gwaith.
- Darparu cymorth parhaus ac eiriolaeth i bobl ifanc yn y gweithle, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd gyda chyfranogwyr a chyflogwyr, a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi.

- Cynigir cymorth a chyfeirio cyffyrddiad ysgafn i bobl ifanc sy'n ceisio hunangyflogaeth, cyflogaeth uniongyrchol, neu addysg bellach/hyfforddiant.
- Cefnogi cyfranogwyr i gael mynediad i adnoddau a grantiau allanol, fel Mynediad at Waith, a helpu cyflogwyr i gyflwyno ymarferion cynhwysol.
- Cadw cofnodion cywir, monitro cynnydd, a chyfrannu at werthuso ac adrodd y prosiect.
- Cydweithio gyda phartneriaid y prosiect, Llysgenhadon Cyfoedion, a rhanddeiliaid eraill i sicrhau dull cyfannol a chynhwysol.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant parhaus, gan gynnwys Technegau Cyflogaeth â Chymorth (SET) a gweithio tuag at Dystysgrif Lefel 3 ar gyfer Ymarferwyr Cyflogaeth â Chymorth o fewn chwe mis o'u penodi

### Effaith a Chanlyniadau

- Mwy o hyder, annibyniaeth, a pharodrwydd i weithio ymhlith pobl ifanc trwy hyfforddiant dwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chymorth wedi'i deilwra cyn, yn ystod, ac ar ôl lleoliadau.
- Gwell sgiliau cyflogaeth, ymddygiadau yn y gwaith, a symud ymlaen i yrfaoedd gwyrdd cynaliadwy, gydag o leiaf 90% o gyfranogwyr mewn lleoliadau â thâl yn dangos gwell sgiliau cyflogaeth allweddol a hyder i ddilyn gyrfa werdd.
- Cyfraddau uwch o leoliadau parhaus, o ansawdd uchel a chanlyniadau cyflogaeth cadarnhaol, gan gynnwys symud ymlaen i gyflogaeth, addysg bellach, neu hyfforddiant, ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau fel anabledd, gwledigrwydd, neu hyder isel.
- Cryfhau gallu cyflogwyr ac arferion cynhwysol, gyda hyfforddwyr gwaith yn cefnogi addasiadau rhesymol, hyfforddiant mentoriaid, ac eiriolaeth barhaus i sicrhau y gall talent ifanc amrywiol ffynnu mewn gweithleoedd gwyrdd.

## Manyleb y Person

### Hanfodol

- Profiad o roi cymorth, hyfforddiant, neu gyngor gyrfa personol i bobl ifanc, yn enwedig rheiny sy'n anabl a/neu o gymunedau ethnig amrywiol.

- Gwybodaeth am dechnegau cyflogaeth gyda chefnogaeth, cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac arferion cyflogaeth cynhwysol.
- Gallu adeiladu ymddiriedaeth a chysylltiad â phobl ifanc a chyflogwyr, ac eirioli'n effeithiol dros anghenion cyfranogwyr.
- Sgiliau trefnu, cyfathrebu, a datrys problemau cryf.
- Dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc anabl a'r rheiny o gymunedau ethnig amrywiol wrth gael mynediad i gyflogaeth.
- Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm ehangach, rheoli llwyth achosion a chydbwyso blaenoriaethau.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant.
- Parodrwydd i gymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach.
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio o fewn y sir/rhanbarth.

## Dymunol

- Profiad o weithio mewn rhaglenni cyflogaeth gyda chefnogaeth neu fel Hyfforddwr Gwaith.
- Cwblhau hyfforddiant mewn Technegau Cyflogaeth â Chymorth (SET), Addysg Systematig (TSI), neu debyg.
- Profiad o weithio gyda phobl ifanc sydd ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) a/neu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.
- Hyfedredd yn y Gymraeg.
- Profiad o gefnogi pobl ifanc mewn lleoliadau gwledig.
- Profiad o gefnogi cyflogwyr i weithredu arferion cynhwysol.
- Cynefindra â Mynediad at Waith a chynlluniau cymorth cyflogaeth eraill.

## Arall

- Maer partneriaeth wedi ymrwymo i weithio'n hyblyg a chefnogi llesiant staff.
- Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad manylach DBS.
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio ar draws y pedair sir sy’n rhan o’r prosiect.